

Gwiwerod

Rebecca Gwynne (Menter Môn)



Geirfa

angheuol	...	<i>fatal</i>	gaeafgysgu	...	<i>hibernate</i>
brodorol	...	<i>native</i>	goroesi	...	<i>survive</i>
collddail	...	<i>deciduous</i>	lledaenu	...	<i>spread</i>
cyflenwad	...	<i>supply</i>	rhywogaeth	...	<i>species</i>
cyflwyno	...	<i>introduce</i>	ymochel	...	<i>shelter</i>

Ceir o leiaf 267 rhywogaeth o wiwer ledled y byd ond nid ydynt i gyd yn edrych fel y gwiwerod yr ydym ni yn gyfarwydd â hwy. Mae'r wiwer hedegog yn gallu hedfan o un goeden i'r llall trwy ddefnyddio darn o groen sydd yn cysylltu ei choesau blaen ac ôl fel hwyl. Gwiwerod sy'n byw ar y llawr yw'r marmotiaid a geir yn Ewrop a Gogledd America ... creaduriaid cymdeithasol a chwareus sydd yn gaeafgysgu mewn twll yn y ddaear er mwyn osgoi'r tywydd oer.



Gwiwer hedegog

Gwiwerod ym Mhrydain

Ym Mhrydain ceir dwy rywogaeth o wiwer – y **wiwer goch** (*Sciurus vulgaris*) a'r **wiwer lwyd** (*Sciurus carolinensis*). Mae'r cofnodion cyntaf o'r wiwer goch ym Mhrydain yn dyddio yn ôl i'r cyfnod cyn diwedd Oes yr Iâ (tua 7,000 – 10,000 o flynyddoedd yn ôl) pan yr oedd tir sych yn cysylltu Ynysoedd Prydain â chyfandir Ewrop. Lledaenu'n naturiol i Brydain wnaeth y wiwer goch, ond daethpwyd â'r pâr cyntaf o wiwerod llwyd yma o'u cartref brodorol yng Ngogledd America ym 1876. Roedd pobl yn hoffi golwg y gwiwerod "newydd" ac felly cyflwynwyd nifer o barau eraill ledled y wlad.

Yn anffodus, ers i'r wiwer lwyd gyrraedd Prydain, mae niferoedd y gwiwerod coch wedi disgyn yn sylweddol. Erbyn hyn, mae'r wiwer goch wedi diflannu'n gyfan gwbl o Dde Lloegr ac o rannau helaeth o Gymru ond ar hyn o bryd mae'n goroesi yng nghoedwigoedd coniferaidd yr Alban lle nad yw'r wiwer lwyd wedi lledaenu. Yng Nghymru mae niferoedd y gwiwerod coch yn isel iawn ac mae'n bwysig iawn eu gwarchod. Yr unig boblogaeth yng Nghymru sy'n cael ei gwarchod yn benodol yw'r un ar Ynys Môn.

Pam y dirywiad?

Mae'n debyg fod sawl ffactor wedi cyfrannu at ddirywiad y wiwer goch. Gostyngodd niferoedd yn sylweddol yn y 15fed a'r 16eg ganrif wrth i goed gael eu torri ar gyfer tanwydd, adeiladu, rhyfel ac amaethyddiaeth. Ar ddechrau'r 19eg ganrif, plannwyd llawer o goed conifferaidd i geisio adnewyddu'r gyflenwad coed am eu bod yn tyfu'n gynt na'r hen goed collddail.


Ffynnodd y gwiwerod coch eto yn y coedwigoedd newydd nes iddynt gael eu herlid mewn rhannau o'r wlad am eu bod yn bla. Fodd bynnag, rhwng 1900 a 1925 gostyngodd y niferoedd yn gyflym iawn ledled Prydain, ac mae'n debyg fod y rhesymau am y dirywiad yn gymhleth dros ben.

Mae rhai arbenigwyr yn credu bod elfen o gystadleuaeth rhwng y wiwer goch a'r wiwer llwyd, ac heb os, mae'n ymddangos fod gwiwerod coch yn diflannu o ardaloedd sy'n cael eu llenwi gan wiwerod llwyd.

Ffactor bwysicach mae'n debyg oedd lledaeniad dau afiechyd a gafodd effaith sylweddol ar y gwiwerod. Y cyntaf yw Coccidiosis, sydd yn niweidio gwiwerod coch a llwyd a'r ail yw'r Parapox sydd yn angheuol i'r wiwer goch ond nid i'r un llwyd.

Ar ben hyn oll daeth dau ryfel byd â cholled cynefin pan dorwyd peth wmbreth o goed. Gan nad oedd y gwiwerod llwyd yn dioddef gan yr afiechyd Parapox, cynyddodd eu poblogaeth yn sylweddol ond colli tir fu hanes y rhai coch.

Dengys y mapiau isod y newid mewn dosbarthiad dros y pum mlynedd diwethaf. (Ailgyhyrchir y data hwn drwy ganiatâd caredig Ymddiriedolaeth Natur Dyrham a Dr. Craig Shuttleworth.)



Ble mae gwiwerod yn byw?

Y goedwig yw cartref y wiwer, lle cysgodol a chynnes ac ynnddi gyflenwad parod o fwyd. Yn debyg iawn i adar, mae gwiwerod yn adeiladu nyth i ymochel ynnddo. Ceir dau brif fath. Y cyntaf yw nyth agored yng nghanopi'r coed, sydd yn edrych yn debyg iawn i nyth pioden ond fod ganddo do rhag y glaw. Mae'n cael ei adeiladu o frigau coed gyda dail, plu, mwsogl ac unrhyw beth arall esmwyth y gall y wiwer gael hyd iddo yn y goedwig i'w wneud yn gyfforddus.



Yr ail fath yw ffau ym monyn y goeden mewn twll sydd naill ai wedi ei greu gan gno cell y coed neu wedi pydru'n naturiol. Mae'r wiwer yn clustogi'r twll hwn hefyd gyda mwsogl a dail i greu cartref clyd. Mae'n hynod o bwysig fod y nyth yn glyd a diddos gan fod rhaid i'r wiwer ymochel ynnddo dros nos a thros y gaeaf. Nid yw gwiwerod yn gaeafgysgu ond mae'n rhaid i'r nyth fod yn guddfan rhag rhew a glaw y gaeaf. Mae'r wiwer yn adeiladu mwy nac un nyth felly os yw un yn cael ei chwalo gan y gwynt, mae ganddi gartref arall i symud i fewn iddo.

Yn aml iawn mae gwiwerod yn rhannu nyth, yn enwedig yn y gaeaf, er mwyn rhannu gwres. Mae'r goedwig yn hynod bwysig i'r gwiwerod coch a llwyd ond fodd bynnag, mae'r wiwer coch sydd yn fychan ac ysgafn yn treulio llawer mwy o'i hamser yng nghanopi'r coed tra bod y wiwer llwyd sydd yn drymach ac yn gryfach, yn treulio llawer mwy o'i hamser ar y ddaear. Gan fod y wiwer llwyd yn defnyddio llwyni a thir mwy agored i chwilio am fwyd mae'n gallu lledaenu'n gyflym o un ardal i'r llall.



Gwiwer lwyd
rhywogaeth lwyddiannus a chyffredin



Gwiwer goch
rhywogaeth brin sydd dan fygythiad

Beth maen nhw'n ei fwyta?

Mae gwiwerod yn bwyta amryw o wahanol fwydydd yn y goedwig gan gynnwys hadau, cnau, mwyar, bylbiau a ffwng. Maent yn casglu bwyd ac yn ei guddio ar lawr y goedwig ac mae'n bwysig eu bod yn creu storfa dda ar gyfer yr adegau hynny pan nad oes llawer o fwyd ar gael.

Gweithgareddau

(Mae'r lluniau isod wedi eu creu gan Gareth Pritchard © Menter Môn.)

Mae gwiwerod yn ddibynol ar lawer o fathau o goed er mwyn cael cyflenwad cyson o fwyd.

Dyma rai ohonynt:

Coed Derw



Mes



Coed Cyll



Cnau Barfog



Ffawydd



Cnau Ffawydd



Sycamorwydd



Had Sycamorwydd



Coed Pinwydd e.e. pinwydden wyllt



Moch Coed



Wrth grwydro o amgylch y goedwig yn ystod yr hydref gellir darganfod nifer o gnau a hadau a fydd yn fwyd i'r wiwer.

1. Casglwch enghreifftiau o'r rhain i greu "plat bwyd" i'r wiwer.
2. Lluniwch fwydlen dymhorol trwy edrych ar y bwydydd gwahanol sydd ar gael yn ystod y flwyddyn e.e.
 - gwanwyn** – blodau, blagur
 - haf** – rhisgl coed, blodau'r goeden dderw, pryfed
 - hydref** – hadau, cnau
 - gaeaf** – rhisgl coed, ffwng, bwyd a gasglwyd yn ystod yr hydref.
3. Mae dail coed yn ystod yr hydref yn hynod liwgar felly defnyddiwch eich dychymyg i greu darn o gelf naturiol gyda'r hyn y gallwch ei gasglu o dan y coed.

Chwarae ditectif

Er nad ydyw bob amser yn hawdd gweld gwiwerod mewn coedwig am eu bod yn treulio llawer o'u hamser yn uchel yn y canopi, maent yn gadael arwyddion ar eu hôl y gall ditectif brwd eu darganfod!




Pan yn bwyta moch coed a chnau mae'n rhaid i'r wiwer eu torri er mwyn cyrraedd yr had maethlon oddi fewn ac fel canlyniad mae'n bosib dod o hyd i'r darnau sy'n cael eu taflu i'r llawr.

Mae gwiwerod hefyd yn cnoi rhisgl ac felly yn aml gellir gweld olion cnoi ar fonyn coeden.



Yn ogystal â chwilio am olion bwyd gallwch edrych am olion traed mewn pridd gwlyb neu eira (gwelir isod) ac wrth gwrs gallwch edrych am y nythod yn y coed.



Troed flaen



Troed ôl

Am wybodaeth bellach am wiwerod coch cysylltwch â:

Swyddog Prosiect Gwiwerod Coch Ynys Môn,
Menter Môn,
Stâd Ddiwydiannol Bryn Cefni,
Llangefni,
Ynys Môn
LL77 7XA.
Ffôn 01248 752450

www.redsquirrels.org